# COMISIWN Y SENEDD

## AMODAU CONTRACT SAFONOL AR GYFER PRYNU GWASANAETHAU

**Ni cheir ond amrywio'r amodau hyn gyda chytundeb ysgrifenedig y Partïon. Ni fydd unrhyw delerau neu amodau a gyflwynir ar unrhyw adeg gennych chi yn ffurfio unrhyw ran o’r Contract.**

## 1 Diffiniadau

1.1 Yn yr Amodau hyn:

**ystyr “Amodau*” (“Conditions”*)** yw’r telerau a’r amodau hyn;

**ystyr “Contract” (*“Contract”*)** yw'r contract sy'n bodoli rhyngoch chi a ni ar gyfer darparu'r Gwasanaethau. Mae'r Contract yn cynnwys yr Amodau hyn, ynghyd ag unrhyw Atodlenni ac unrhyw un o'r dogfennau a ganlyn a all fod yn gymwys: Gorchymyn Prynu, Manyleb, Gwahoddiad i Gynnig Dyfynbris neu Wahoddiad i Dendro ac unrhyw ymatebion iddynt, Llythyr Dyfarnu Contract ac unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y Contract fel dogfennau sy'n rhan o'r Contract;

**ystyr "Llythyr Dyfarnu Contract" (*“Contract Award Letter”*)** yw'r llythyr oddi wrthym ni atoch chi sy'n derbyn eich dyfynbris neu eich cyflwyniad tendr ac sy'n cwblhau'r Contract;

**ystyr "Pris y Contract" (*“Contract Price”*)** yw'r pris sy'n daladwy gennym ni i chi am ddarparu'r Gwasanaethau fel y'u nodir yn y Contract, gan gynnwys unrhyw daliadau ychwanegol am Wasanaethau ychwanegol;

**ystyr “Lefel Weithredu Gritigol*” (“Critical Functionality”*)** yw lefel y gallu i weithredu a bennir yn y Contract (gan gynnwys Lefelau Gwasanaeth penodedig), neu y gellir ei ystyried yn nodwedd graidd o'r Gwasanaethau, ac os eir islaw'r lefel hon mae'n debygol y gwelir effaith sylweddol ar y gweithrediadau gan arwain at fethiant critigol y Gwasanaethau;

**ystyr "Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data" ("*Data Protection Impact Assessment*")** yw asesiad gennym ni o effaith unrhyw brosesu a ragwelir ar ddiogelu Data Personol;

**ystyr “Deddfwriaeth Diogelu Data” (“*Data Protection Legislation*”)** yw’r holl ddeddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd cymwys sydd mewn grym o bryd i’w gilydd yn y DU, gan gynnwys GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (OS 2003/2426) fel y’u diwygiwyd;

**ystyr "Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun" ("*Data Subject Access Request*")** yw cais gan, neu ar ran, Testun Data (fel y'i diffinnir yn Amod

25.1) yn unol â'r hawliau a roddwyd yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data er mwyn cael mynediad at ei Ddata Personol (fel y'i diffinnir yn Amod 25.1);

**ystyr "y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth" ("*FOIA*")** yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed oddi tani ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth o bryd i'w gilydd mewn perthynas â hi a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004;

**Ystyr "Arferion Da'r Diwydiant" ("*Good Industry Practice*"**) yw safonau, arferion, dulliau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r Rheolau a'r Rheoliadau a'r arfer o ran lefel y sgil a gofal, sylw, darbodusrwydd a rhagwelediad fyddai'n rhesymol ac arferol ddisgwyliedig gan berson neu gorff sgiliedig a phrofiadol sy'n ymwneud â'r diwydiant neu'r sector busnes perthnasol;

**ystyr "Hawliau Eiddo Deallusol*" ("Intellectual Property Rights*")** yw patentau, nodau masnach, nodau gwasanaeth, hawliau dylunio, hawliau dylunio cofrestredig, hawlfraint, hawliau cronfa ddata, gallu arbenigol, enwau masnach neu fusnes, a hawliau tebyg eraill, sy'n codi mewn unrhyw wlad yn y byd, ac mae'n cynnwys ceisiadau ar gyfer unrhyw un ohonynt;

**ystyr "Gwahoddiad i Roi Dyfynbris/Gwahoddiad i Dendro" ("*Invitation to Quote/Invitation to Tender*")** yw'r gwahoddiad i roi dyfynbris neu'r gwahoddiad i dendro a gyhoeddwyd gennym ni i chi ac mae'n cynnwys Manyleb y Gwasanaethau, yr Amodau hyn ac unrhyw ddogfennau ategol eraill;

**ystyr "Personél Allweddol" ("*Key Personnel*")** yw'r aelodau hynny o'ch Personél a bennir yn y Contract fel rhai sy'n hanfodol i ddarparu'r Gwasanaethau yn briodol, a hefyd unrhyw aelodau o'ch Personél yr ydym yn eich hysbysu yn ysgrifenedig yn ystod y Contract eu bod i gael eu trin fel Personél Allweddol;

**ystyr "Achos Sylweddol o Dorri'r Amodau" ("*Material Breach*")** yw torri'r amodau (gan gynnwys achos pan mae'n hysbys ymlaen llaw y bydd amodau'n cael eu torri) nad yw'n fach iawn neu'n ddibwys ei ganlyniadau i'r parti nad yw'n eu torri, a dylid dehongli "sylweddol" yn unol â hynny. Wrth benderfynu a yw unrhyw achos o dorri amodau yn sylweddol, ni roddir unrhyw ystyriaeth i ba un a yw hynny'n digwydd trwy ddamwain, anffawd, camgymeriad neu gamddealltwriaeth;

**ystyr "partïon" ("parties")** yw Comisiwn y Senedd a'r person, y bartneriaeth neu'r cwmni sy'n darparu'r Gwasanaethau o dan y Contract, a rhaid dehongli cyfeiriad at "parti" fel sy'n ofynnol gan y cyd-destun;

**ystyr "Personél" ("*Personnel*")** yw unrhyw un yr ydych yn ei ddefnyddio wrth ddarparu'r Gwasanaethau i ni, er enghraifft unrhyw gyflogai, gweithiwr asiantaeth, gweithiwr dros dro, is-gontractwr neu unrhyw gyflogai i is-gontractwr;

**ystyr "y Safle" ("*Premises*")** yw ystâd Senedd Cymru sy'n cynnwys y Senedd, Adeiladau'r Senedd ac Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN a Llawr Gwaelod Canolfan Ymwelwyr Gogledd Cymru, Parc y Tywysog, Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn, LL29 8PL ac unrhyw adeilad neu adeiladau eraill a nodir yn y Contract;

**ystyr "Cynnig" ("*Proposal*")** yw unrhyw gynnig, ymateb tendro neu ddogfennau tebyg a roddwyd i ni gennych chi, yn disgrifio sut yr ydych yn bwriadu darparu'r Gwasanaethau;

**ystyr "Gorchymyn Prynu" ("*Purchase Order*")** yw ein ffurflen sy'n dwyn y teitl "Gorchymyn Prynu" neu Lythyr Dyfarnu Contract a anfonwyd atoch gennym ni, ac unrhyw Fanyleb neu ddogfennau ategol sy'n nodi ein gofynion ar gyfer y Gwasanaethau (ac unrhyw Wasanaethau ychwanegol), sy'n cynnwys Pris y Contract a'r Fanyleb;

**ystyr "Cyflenwr Newydd" ("*Replacement Supplier*")** yw unrhyw berson, partneriaeth neu gwmni sy'n darparu gwasanaethau tebyg i'r Gwasanaethau (neu unrhyw ran ohonynt) a chan gymryd eu lle ar ôl i'r Contract hwn (neu unrhyw ran ohono) ddod i ben neu gael ei derfynu;

**ystyr "Rheolau a Rheoliadau" ("*Rules and Regulations*")** yw unrhyw gyfraith, statud, is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr adran 21(1) o Ddeddf Dehongli 1978, is-ddeddf, unrhyw ddeddfwriaeth y mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gymwys iddi, rheoliad, gorchymyn, canllawiau neu god ymarfer gorfodol, dyfarniad llys barn perthnasol, neu gyfarwyddebau neu ofynion unrhyw gorff rheoleiddio yr ydych wedi eich rhwymo i gydymffurfio â hwy;

**ystyr "Credydau Gwasanaeth" ("*Service Credits*")** yw'r symiau sy'n daladwy o dan unrhyw gyfundrefn Credydau Gwasanaeth a nodir yn y Contract;

**ystyr "Lefelau Gwasanaeth" ("*Service Levels*")** yw unrhyw lefelau gwasanaeth a nodir yn y Contract y mae'n rhaid darparu'r gwasanaethau yn unol â hwy;

**ystyr "Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth" ("*Service Implementation Plan*")** yw unrhyw gynllun ac amserlen ar gyfer gweithredu'r Gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Contract neu a ddatblygir oddi tano gan gynnwys unrhyw Wasanaethau ychwanegol y cytunwyd arnynt o dan y Contract;

**ystyr "*Rheolwyr Gwasanaeth*" ("Service Managers")** yw cynrychiolwyr dynodedig y partïon o bryd i'w gilydd sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am gyflawni eu rhwymedigaethau priodol o dan y Contract ac sy'n gweithredu fel y prif bwynt cyswllt rhwng y partïon;

**ystyr "Gwasanaethau" *("Services")*** yw'r gwasanaethau a ddarperir i ni gennych chi o dan y Contract, fel y'u disgrifir yn fwy penodol yn y Fanyleb;

**ystyr "Manyleb" ("*Specification*")** yw'r disgrifiad o'r Gwasanaethau sydd i gael eu darparu gennych chi o dan y Contract;

**Mae i "GDPR y DU" ("*GDPR*")** yr ystyr a roddir iddo yn adran 3(10) (fel y'i ategir gan adran 205(4)) o Ddeddf Diogelu Data 2018;

**ystyr "ni" ("*we*")** yw Comisiwn y Senedd, a defnyddir "ni" ac "ein" hefyd mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd;

**ystyr "Diwrnod Gwaith" ("*Working Day*")** yw dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio unrhyw wyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr; ac

**ystyr "chi" ("*you*")** yw chi, y person, y bartneriaeth neu'r cwmni sy'n darparu Gwasanaethau i ni o dan y Contract, a bydd cyfeiriad at "eich" yn cael ei ddehongli yn unol â hynny.

1.2 Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad ato fel y mae mewn grym ar y pryd gan ystyried unrhyw ddiwygiad, estyniad neu ail-ddeddfiad ac mae'n cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd mewn grym oddi tano ar y pryd.

1.3 Wrth ddehongli'r Contract bydd y dogfennau a ganlyn yn cael blaenoriaeth yn y drefn y maent wedi'u rhestru i'r graddau na ellir darllen a chymhwyso unrhyw ddarpariaeth ynddynt ar y cyd ag unrhyw ddarpariaeth yn yr Amodau hyn:

1.3.1 y Gorchymyn Prynu;

1.3.2 y Fanyleb; ac

1.3.3 yr Amodau.

## 2 Darparu'r Gwasanaethau

2.1 Rhaid i chi ddarparu'r Gwasanaethau:

2.1.1 yn unol â darpariaethau'r Contract;

2.1.2 mewn modd sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Fanyleb; a

2.1.3 gydag Arferion Da’r Diwydiant;

trwy gydol cyfnod y Contract.

2.2 Mae cyfnod y Contract (oni bai y caiff ei derfynu'n gynharach o dan Amodau 30, 31 neu 33.2) fel y'i nodir yn y Gorchymyn Prynu.

2.3 Byddwch yn dechrau ac yn cwblhau ac fel arall yn darparu'r Gwasanaethau yn unol â'r Contract. Heb effeithio ar unrhyw un o'n hawliau eraill o dan y Contract, os byddwch ar unrhyw adeg yn colli tir o ran yr amserlen a bennwyd wrth ddarparu'r Gwasanaethau rhaid i chi wneud eich gorau i ddod yn ôl at yr amserlen, gan gynnwys (lle y bydd hyn yn helpu) drwy neilltuo adnoddau ychwanegol i ddarparu'r Gwasanaethau heb unrhyw gost ychwanegol i ni.

2.4 Os byddwn yn gofyn, byddwch yn rhoi rhaglenni manwl inni o'r drefn y byddwch yn ei dilyn wrth ddarparu'r Gwasanaethau a sut y byddwch yn darparu'r Gwasanaethau. Gallwn o bosibl ddweud wrthych ym mha drefn i ddarparu'r Gwasanaethau a byddwch yn cydymffurfio â'r cais hwnnw. Os byddwn yn gofyn, byddwch hefyd yn rhoi adroddiadau inni yn ystod y broses o gyflawni'r Gwasanaethau ac yn cyfarfod â ni i drafod ac adolygu'r Gwasanaethau a ddarparwyd.

2.5 Os bydd y gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau yn cynnwys unrhyw ddeunyddiau, rhaid i'r rhain fod o ansawdd boddhaol, a chael eu cynhyrchu a'u dylunio i safon foddhaol.

2.6 O ran y Gwasanaethau y byddwch yn eu cyflawni yn y Safle, ystyrir eich bod wedi archwilio'r Safle cyn derbyn Gorchymyn Prynu, neu cyn cyflwyno dyfynbris neu dendr fel y bo'n berthnasol, a'ch bod yn fodlon mewn perthynas â phob mater sy'n gysylltiedig â darparu'r Gwasanaethau yn y Safle. Os byddwch yn gwneud cais, byddwn yn caniatáu ichi ddod i mewn i'r Safle fel sy'n rhesymol at y diben hwn.

2.7 O ran y Gwasanaethau y byddwch yn eu cyflawni yn eich safle chi (neu safle eich Personél), byddwch yn caniatáu i ni fynd i mewn i'r safle hwnnw i'w archwilio, ac i arsylwi gwaith yn cael ei gyflawni yno o dan y Contract, os byddwn yn gofyn am hynny. Byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol ichi cyn gwneud unrhyw gais o'r fath, ac ni fyddwn yn gofyn am fynediad ac eithrio yn ystod eich oriau gwaith arferol.

2.8 Rydych yn cydnabod ac yn cadarnhau eich bod wedi cael cyfle i gynnal ymarfer diwydrwydd dyladwy trylwyr mewn perthynas â'r Gwasanaethau ac wedi gofyn yr holl gwestiynau sy'n berthnasol yn eich barn chi er mwyn sefydlu a ydych yn gallu darparu'r Gwasanaethau yn unol â thelerau'r Contract, ac rydych wedi llofnodi'r Contract gan ddibynnu ar eich diwydrwydd dyladwy.

2.9 Os oes angen ichi ddefnyddio ein seilwaith TGCh er mwyn darparu'r Gwasanaethau, byddwch yn cydymffurfio ym mhob ffordd ag unrhyw weithdrefnau mynediad a gofynion diogelwch a nodir gennym yn y Fanyleb neu yr ydym yn eich hysbysu amdanynt fel arall.

## 3 Gwarantau

3.1 Rydych yn gwarantu, yn mynegi ac yn ymrwymo inni:

3.1.1 bod gennych y gallu a'r awdurdod llawn a phob caniatâd angenrheidiol i ymrwymo i'r Contract ac i'w gyflawni, a bod y Contract wedi ei lofnodi ar eich rhan gan rywun sydd wedi ei awdurdodi i wneud hynny;

3.1.2 eich bod yn cydnabod ein bod yn ymrwymo i'r Contract hwn ar sail eich Cynnig a bod y Cynnig yn wir, yn gywir ac yn gyflawn ym mhob agwedd sylweddol, ac nad yw'n gamarweiniol;

3.1.3 y bydd y Gwasanaethau yn cyflawni'r Fanyleb ym mhob ffordd; a

3.1.4 y byddwch, yn ychwanegol at eich rhwymedigaethau penodol fel y'u nodir yn y Contract, yn cydymffurfio â'r holl Reolau a Rheoliadau ac yn meddu ar unrhyw drwydded, caniatâd a/neu dystysgrif sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith er mwyn cyflawni'r Contract.

3.2 Rydym yn gwarantu, yn mynegi ac yn ymrwymo ichi bod gennym y gallu a'r awdurdod llawn a phob caniatâd angenrheidiol i ymrwymo i'r Contract ac i'w gyflawni, a bod y Contract wedi ei lofnodi ar ein rhan gan rywun sydd wedi ei awdurdodi i wneud hynny.

## 4 Rheoli Perfformiad Contractwyr

4.1 Mae'n bosibl y byddwn yn nodi proses fanwl ar gyfer rheoli perfformiad yn y Contract, ond os na, bydd gofynion yr Amod hwn yn gymwys fel isafswm.

4.2 Byddwch yn gyfrifol am gyflawni unrhyw dargedau perfformiad ac am ddarparu'r wybodaeth ofynnol inni. Ni fydd yn gyfrifol yn y pen draw am fesur eich perfformiad. Byddwch bob amser yn darparu'r allbwn gofynnol hyd at safon uchel o ran gofal a chywirdeb.

4.3 Mae'n rhaid ichi fonitro eich perfformiad eich hun yn effeithiol i sicrhau bod ein gofynion o dan y Contract yn cael eu bodloni'n llawn, ac eithrio mewn unrhyw feysydd lle y cytunwyd y byddwn ni'n ymgymryd â'r gwaith monitro. Os byddwch yn ystyried (gan ymddwyn yn afresymol) nad ydych yn gallu cyflawni'r Gwasanaethau fel sy'n ofynnol yn ôl y Contract, byddwch yn rhoi gwybod i ni yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl gan nodi'r rhesymau dros hyn.

4.4 Mae'n bosibl y cynhelir cyfarfodydd adolygu perfformiad os bydd hynny'n ofynnol gennym ni, a'n Rheolwr Gwasanaeth fydd yn penderfynu a ydynt yn ofynnol a pha mor aml y dylid eu cynnal.

4.5 Os yw'n ofynnol ichi gasglu data perfformiad, rhaid gwneud hyn mewn adroddiadau gwybodaeth reoli sy'n rhwydd eu deall. Rhaid cytuno gyda ni ar fformat a chynnwys yr adroddiadau hyn, ac ar ba mor aml y mae angen eu paratoi, a rhaid eu cyflwyno o leiaf bum Niwrnod Gwaith cyn pob cyfarfod adolygu perfformiad.

4.6 Byddwch yn rhoi inni unrhyw wybodaeth reoli y gallwn yn rhesymol ofyn amdani o bryd i'w gilydd, a byddwch yn gwneud hynny o fewn Pum Niwrnod Gwaith i gael unrhyw gais o'r fath a heb godi tâl arnom ni.

4.7 Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn ichi ddatblygu cofrestr risg ar y cyd â ni heb godi tâl. Byddai hon yn nodi problemau posibl, a'u hachosion, ac yn asesu pa mor debygol yw risgiau o ddigwydd a'u heffeithiau cymharol. Yna byddwn yn cytuno ar ba barti sydd yn y sefyllfa orau i reoli'r risgiau, ac yn dyfeisio strategaethau i'w lleihau cymaint ag y bo modd. Byddwch yn cymryd rhan lawn yn y broses hon, ac yn rheoli pob risg yr ydych yn gyfrifol amdani, yn llawn ac yn ddiwyd.

## 5 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

5.1 Byddwch yn cydymffurfio ag unrhyw gyfundrefn a mesurau a nodwyd gennym yn y Contract neu y cytunir arnynt ar y cyd â chi ar gyfer darparu Gwasanaethau yn unol â Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud ag ansawdd a safon y Gwasanaethau sydd i'w cyflawni o dan y Contract.

## 6 Gwerth am arian

6.1 Pan fydd angen cytuno ar Bris y Contract am wasanaethau ychwanegol o dan y Contract, boed ar sail pris penodol, amser a deunyddiau, neu ryw sail arall, rydych yn ymrwymo i gynnal trafodaethau yn ddidwyll ac i weithredu'n rhesymol wrth geisio dod i gytundeb gyda ni ynglŷn ag unrhyw newidiadau angenrheidiol i Bris y Contract.

6.2 Rydych yn cydnabod bod yn rhaid inni, fel corff cyhoeddus, geisio cyflawni gwerth am arian ac er mwyn ein helpu yn hyn o beth, byddwch yn cymryd pob cam rhesymol i ddod o hyd i ffyrdd o arbed arian trwy weithredu'n fwy effeithlon, ac i'w rhoi ar waith, a byddwch yn adlewyrchu'r rhain ym Mhris y Contract. I gefnogi hyn, byddwch yn darparu heb gost unrhyw ddogfennau a gwybodaeth y byddwn ni'n rhesymol yn gofyn amdanynt i ganfod ar ba sail y cyfrifwyd Pris y Contract ac a ddarperir gwerth am arian.

6.3 Gan weithredu'n rhesymol ac yn ddidwyll byddwch yn trafod unrhyw awgrymiadau a wnawn i arbed costau, a byddwch o dan rwymedigaeth barhaus i roi gwybod inni am gyfleoedd i arbed costau a'u rhoi ar waith pan ofynnir ichi wneud hynny.

6.4 Ni fydd hawl gennych i godi tâl arnom ni am unrhyw waith yr ydym wedi dangos:

6.4.1 ei fod yn ddibwys neu nad oedd yn ymarferol bosibl canfod sut yr oedd cwblhau'r gwaith hwnnw wedi cyfrannu at ddarparu'r Gwasanaethau; a

6.4.2 ei fod yn dyblygu gwaith ac nad oes modd i chi roi esboniad rhesymol am hynny. Ni fydd hyn yn gymwys i ddyblygu pan fyddwn ni yn rhesymol wedi gofyn ichi ddyblygu gwaith ac wedi cytuno i hynny.

## 7 Talu

7.1 Byddwn yn talu Pris y Contract ichi am y Gwasanaethau, ar yr amod eich bod yn cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan y Contract.

7.2 Mae'n rhaid ichi roi anfoneb TAW ddilys inni am Bris y Contract neu bob rhandaliad o Bris y Contract, ddim cynharach na'r dyddiad y daw pob swm yn ddyledus, fel a bennir yn y Gorchymyn Prynu Rhaid ichi anfon eich anfoneb at y Gwasanaethau Ariannol, Comisiwn y Senedd, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN. Rhaid i bob anfoneb nodi'n glir i ba Orchymyn Prynu y mae'n berthnasol. Os nad yw rhif y Gorchymyn Prynu wedi'i ddynodi'n eglur ar bob anfoneb, mae'n bosibl y caiff yr anfoneb ei dychwelyd ichi heb ei thalu.

7.3 Os oes mwy nag un anfoneb o dan y Gorchymyn Prynu, am unrhyw reswm, rhaid i bob anfoneb ddangos â pha ran o'r Gwasanaethau y mae'r anfoneb honno'n gysylltiedig. Rhaid nodi'n eglur ar yr anfoneb olaf mewn perthynas â Gorchymyn Prynu mai honno yw'r anfoneb olaf.

7.4 Nid yw Prisiau yn cynnwys Treth ar Werth oni nodir yn wahanol yn y Gorchymyn Prynu. Os bydd unrhyw Dreth ar Werth i'w thalu, byddwch yn dangos hyn ar wahân ar eich anfonebau.

7.5 Oni nodir yn wahanol yn y Gorchymyn Prynu, byddwn yn talu pob anfoneb nad oes anghydfod yn ei chylch trwy BACS o fewn 30 diwrnod iddi ddod i law ar yr amod ein bod yn fodlon bod unrhyw Wasanaethau y mae'r anfoneb yn ymwneud â hwy wedi eu cwblhau'n foddhaol.

7.6 Os bydd unrhyw barti yn anghytuno ynglŷn ag unrhyw swm sydd i'w dalu ganddo, telir swm sy'n hafal i'r swm nad oes anghydfod yn ei gylch a

phenderfynir ar yr anghydfod ynghylch y swm sydd heb ei dalu yn unol â'r weithdrefn datrys anghydfod yn Amod 19.

7.7 Yn unol â Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, bydd llog yn daladwy ar y taliad os bydd unrhyw Bris y Contract nad oes anghydfod yn ei gylch ac a anfonebwyd yn gywir o dan y contract yn cael ei dalu'n hwyr. Ni fyddwch yn atal darpariaeth y Gwasanaethau os bydd unrhyw daliad yn hwyr.

7.8 Os ydym yn hwyr yn talu anfoneb ysgrifennwch at Cyfrifon Taladwy, Gwasanaethau Ariannol, Comisiwn y Senedd, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN, ac os nad yw'n cael ei dalu wedi hynny, ysgrifennwch at y Pennaeth Cyllid, Comisiwn y Senedd, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN. Awgrymir y weithdrefn hon fel y ffordd ymarferol orau o sicrhau bod problemau ynglŷn â thalu'n hwyr yn cael eu datrys, ac ni fwriedir iddi ymyrryd â'ch hawliau cyfreithiol chi na'n hawliau cyfreithiol ni i herio'r swm sy'n ddyledus.

7.9 Gallwn gadw'n ôl unrhyw symiau sy'n ddyledus i ni gennych chi ac sy'n daladwy, neu eu gosod yn erbyn unrhyw symiau sy'n ddyledus i chi o dan y Contract neu unrhyw gytundeb arall yr ydych yn darparu nwyddau neu wasanaethau i ni oddi tano. Os ydym yn dymuno gwneud hyn, byddwn yn rhoi rhybudd i chi o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad y daw'r anfoneb berthnasol i law, gan nodi ein rhesymau dros atal y symiau perthnasol neu eu cadw'n ôl.

7.10 Byddwch yn gwneud unrhyw daliadau sy'n ddyledus i ni heb unrhyw ddidyniad boed trwy osod un swm yn erbyn un arall, neu ar ffurf gwrth-hawliad, disgownt, lleihad neu fel arall, oni bai bod gennych orchymyn llys dilys sy'n ei gwneud yn ofynnol i swm sy'n hafal i'r didyniad gael ei dalu gennym ni i chi.

7.11 Ni chewch wneud cais am unrhyw dreuliau teithio, llety, cynhaliaeth neu dreuliau eraill oni bai y darperir yn benodol ar gyfer y rhain yn y Contract. Os darperir ar gyfer y rhain, rhaid ichi ddilyn unrhyw weithdrefn a bennir a sicrhau bod unrhyw dreuliau yr ydych yn eu gwario yn rhesymol a'ch bod yn gwneud pob ymdrech i'w cadw i'r swm lleiaf posibl.

## 8 Credydau Gwasanaeth

8.1 Os bydd y Contract yn cynnwys cyfundrefn Credydau Gwasanaeth a'ch bod yn methu â darparu'r Gwasanaethau yn unol â'r Lefelau Gwasanaeth perthnasol, byddwch yn talu'r Credydau Gwasanaeth i ni fel y'u cyfrifir yn unol â'r gyfundrefn honno.

8.2 Heb effeithio ar ein hawliau o dan yr Amod hwn 8 nac yn gyffredinol, rydym yn cadw'r hawl, mewn perthynas â chyflawni'r Gwasanaethau i'r safonau

sy'n ofynnol gan y Lefelau Gwasanaeth, i gywiro unrhyw ddiffygion yn narpariaeth y Gwasanaethau ei hun sy'n ymwneud â Lefel Gritigol Addasrwydd at y Diben, neu i benodi trydydd partïon i wneud hynny gan roi 24 awr o rybudd i chi, ac ym mhob achos ar eich menter a'ch traul chi. Byddwch yn ymdrechu i gywiro'r diffygion o fewn cyfnod rhybudd o 24 awr.

## 9 Perthynas

9.1 Contractwr annibynnol ydych chi a rhaid ichi weithredu felly bob amser. Nid ydych yn bartner, cyflogai, asiant na chynrychiolydd inni ac nid oes gennych unrhyw awdurdod i weithredu ar ein rhan. Ni fyddwch yn gweithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai'n rhoi'r argraff eich bod yn bartner, cyflogai, asiant na chynrychiolydd inni.

9.2 Os ydych yn unigolyn byddwch, os gofynnwn am hynny, yn rhoi tystiolaeth inni o'ch statws hunangyflogedig. Mae gennym hawl i gymryd yn ganiataol eich bod yn hunangyflogedig, a byddwch yn gwneud yn siŵr nad oes raid inni ysgwyddo'r gost o dalu unrhyw dreth, yswiriant gwladol neu daliadau tebyg i Gyllid y Wlad neu unrhyw Adran arall o'r Llywodraeth ar y sail nad ydych yn hunangyflogedig. Os bydd yn rhaid inni wneud unrhyw daliad o'r fath i Gyllid y Wlad neu unrhyw Adran arall o'r Llywodraeth oherwydd eu bod o'r farn nad ydych i gael eich trin fel pe baech yn hunangyflogedig wrth gyflawni'r Gwasanaethau, byddwch yn talu i ni swm sy'n hafal i unrhyw arian y mae'n rhaid i ni dalu (gan gynnwys unrhyw gostau a threuliau).

## 10 Cydweithredu a llywodraethu

10.1 Byddwch naill ai yn cydymffurfio ag unrhyw drefniadau llywodraethu a nodir yn y Contract neu, os byddwn yn gofyn am hynny, byddwch o leiaf yn penodi Rheolwr Gwasanaeth a byddwn ninnau'n gwneud yr un peth.

10.2 Mae unrhyw un o'ch Personél a nodir gennych chi a ni yn ysgrifenedig, sy'n rhan o'r trefniadau llywodraethu a nodir yn y Contract, neu eich Rheolwr Gwasanaeth, yn cael eu cyfrif yn Bersonél Allweddol ac ni fyddwch yn newid unrhyw un ohonynt heb ymgynghori â ni ymlaen llaw yn unol ag Amod 11.7.

10.3 Os na ddarperir fel arall yn y Contract, ac yn ychwanegol at unrhyw gais a wnawn o dan Amod 2.4, bydd eich Rheolwr Gwasanaeth yn cwrdd â ni ac yn cyflwyno adroddiad inni bob chwe mis os gofynnwn am hynny.

## 11 Eich Personél

11.1 Byddwch yn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael gennych ar gyfer darparu'r Gwasanaethau, a bod eich Personél yn gymwys, wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn meddu ar gymwysterau a’r profiad addas i gyflawni'r Gwasanaethau.

11.2 Byddwch chi a'ch Personél bob amser yn cydymffurfio â'n polisïau a'n gweithdrefnau mewnol (gan gynnwys y rhai ar ddiogelwch, ymddygiad, amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny), ac mae croeso ichi wneud cais am gopïau o'r rhain.

11.3 Rhaid i bob un o'ch Personél gael eu clirio trwy archwiliad diogelwch gennym ni yn unol â'n gweithdrefnau fetio cyffredinol cyn iddynt ddechrau gweithio i gyflawni'r Contract yn y Safle. Mae'n rhaid i archwiliadau diogelwch gael eu hadnewyddu o bryd i'w gilydd yn unol â'n cyfarwyddiadau ni. Mae rhagor o wybodaeth am ein gofynion a'n gweithdrefnau fetio ar gael gan ein Rheolwr Diogelwch Personél. Gallwn ofyn am ragor o wybodaeth i symud y broses fetio yn ei blaen, a byddwch yn ei darparu inni cyn gynted ag y bo modd ar ôl inni ofyn amdani. Gallem wrthod clirio unrhyw un o'ch Personél o safbwynt diogelwch. Os ydym yn gwrthod cliriad diogelwch, ni allwch ddefnyddio hynny fel rheswm i oedi cyn cyflawni'r Gwasanaethau na rhoi'r gorau i'w cyflawni.

11.4 Byddwch yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwn i chi yn ymwneud â diogelwch a mynediad i'r Safle (gan gynnwys cario, arddangos a dychwelyd pasys diogelwch), ac yn sicrhau bod eich Personél i gyd yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau o'r fath.

11.5 Os gofynnwn am hynny, byddwch yn rhoi inni restr o enwau a chyfeiriadau eich Personél sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaethau, ac o'r tasgau y bydd pob person yn eu cyflawni ynghyd ag unrhyw wybodaeth neu ddogfennau eraill y gallem ofyn am gael eu gweld.

11.6 Byddwch yn sicrhau bod y Personél Allweddol ar gael i gyflawni'r Gwasanaethau.

11.7 Ni fyddwch yn newid na chyfnewid Personél Allweddol (oni bai bod hynny oherwydd salwch tymor hir neu gyfnod mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu, oherwydd i'w cyflogaeth gael ei therfynu, oherwydd iddynt gael eu symud yn unol ag Amod 11.11 neu oherwydd amgylchiadau eraill sy'n lleihau'r bai) oni bai ein bod wedi cytuno i'w newid neu eu cyfnewid. Bydd unrhyw Bersonél newydd o'r un statws o leiaf, â phrofiad a sgiliau cyfwerth. Byddwch yn ein hysbysu cyn gynted ag y byddwch yn sylweddoli y gallai fod angen newid neu gyfnewid Personél Allweddol.

11.8 Byddwch yn sicrhau bod eich Personél yn ymddwyn bob amser mewn modd priodol tra'u bod yn y Safle ac, yn arbennig, byddwch yn sicrhau eu bod yn gyffredinol drwsiadus a, phan fyddwn yn ei gwneud yn ofynnol, yn gwisgo gwisgoedd unffurf sy'n lân ac mewn cyflwr da. Rhaid i ni gymeradwyo unrhyw wisgoedd o'r fath (ac unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gwisgoedd) ymlaen llaw.

11.9 Byddwch yn sicrhau nad yw eich Personél sy'n gweithio yn y Safle yn ysmygu tra'u bod ar ddyletswydd. Yn unol â'r Rheoliadau Mangreoedd di-fwg ac ati. (Cymru) 2007 mae'r holl ardaloedd caeedig neu sylweddol gaeedig yn y Safle yn ardaloedd di-fwg a gwaherddir ysmygu yn llwyr yn yr ardaloedd hynny. Dim ond mewn rhai ardaloedd penodol y tu allan y caniateir ysmygu a dangosir y rhain i'ch Personél os byddant yn gwneud cais am hynny.

11.10 Byddwch yn sicrhau nad yw unrhyw un o'ch Personél sy'n gweithio yn y Safle ond yn mynd i'r rhannau hynny o'r Safle y mae'n angenrheidiol iddynt fynd i ddarparu'r Gwasanaethau ac wedyn dim ond ar adegau pan fyddant wrthi'n darparu'r Gwasanaethau.

11.11 Gallwn ar unrhyw adeg wrthod caniatáu i'ch Personél ddod i'r Safle neu ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw un o'ch Personél yn cael ei symud o'r Safle pe na fyddai'n ddymunol eu derbyn neu ganiatáu iddynt aros yn ein barn resymol ni. Bydd ein penderfyniad ynghylch a ddylid gwrthod derbyn eich Personél neu eu symud oddi ar y Safle yn derfynol a phendant. Byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod yr unigolyn dan sylw yn gadael y Safle. Rhaid i chi gael pas diogelwch yr unigolyn yn ôl os oes ganddo ef neu hi un, a'i ddychwelyd inni. Byddwch yn penodi rhywun arall sy'n gallu cyflawni'r Gwasanaethau i'r safon ofynnol o dan y Contract, yn lle'r person hwnnw, ac mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn dal i gyflawni'r Gwasanaethau ar amser ac fel y'u nodir yn y Contract.

11.12 Ni fyddwn yn atebol am unrhyw gostau neu gostau ychwanegol a ddaw i'ch rhan oherwydd eich bod yn cydymffurfio ag Amod 11.

## 12 Ystyriaethau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

12.1 Rydym yn gyflogwr ac yn ddarparwr gwasanaethau cyfle cyfartal. Mae'n rhaid i chi (a'ch Personél) hefyd fod yn gyflogwr ac yn ddarparwr gwasanaethau cyfle cyfartal a chydymffurfio'n llawn â Rheolau a Rheoliadau perthnasol cyfleoedd cyfartal (gan gynnwys, heb gyfyngu ar yr Amod hwn, Deddf Cydraddoldeb 2010).

12.2 Byddwch yn sicrhau nad ydych yn gwahaniaethu yn erbyn neb yn anghyfreithlon, nac yn trin neb yn annheg, ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, aelodaeth / diffyg aelodaeth o undeb / gweithgarwch mewn undeb, statws rhan-amser neu unrhyw sail arall a waherddir gan unrhyw Reolau a Rheoliadau perthnasol cysylltiedig â chydraddoldeb. Byddwch hefyd yn sicrhau nad oes unrhyw un sy'n gweithredu ar eich rhan chi a'ch Personél sy'n ymwneud â'r Contract yn gwneud hynny ychwaith, a bod y rhai sy'n ymwneud â rheoli

neu weithredu'r Contract yn derbyn hyfforddiant priodol ar Reolau a Rheoliadau cyfle cyfartal ac arfer da cysylltiedig.

12.3 Dylech fonitro eich polisïau cyfle cyfartal a'ch arferion cyflogaeth yn briodol a rhoi tystiolaeth inni o hyn, os byddwn yn gofyn.

12.4 Byddwch yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr holl nwyddau a deunyddiau a ddefnyddir wrth ddarparu'r Gwasanaethau o dan y Contract hwn yn cael eu cynhyrchu yn unol â holl gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) a gadarnhawyd gan wlad eu tarddiad.

12.5 Fe'ch anogir i lenwi unrhyw swyddi gwag ar gyfer eich Personél trwy broses recriwtio sy'n cyd-fynd ag arferion gorau o safbwynt cyfle cyfartal.

12.6 Byddwch yn darparu'r Gwasanaethau mewn modd sy'n ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o ran y Gymraeg o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'n Cynllun Ieithoedd Swyddogol (o bryd i'w gilydd).

12.7 Byddwch yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 bob amser wrth gyflawni'r Contract hwn a byddwch yn gwneud ymdrech resymol i sicrhau bod eich staff yn cydymffurfio â hwy hefyd.

12.8 Byddwch yn gwneud, neu'n ymatal rhag gwneud, gweithredoedd y byddwn yn gofyn i chi eu gwneud er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## 13 Arferion cyflogaeth

13.1 13.1Rydym wedi ymrwymo i sicrhau arferion cyflogaeth teg a thryloyw drwy gydol y gadwyn gyflenwi ar gyfer y contract hwn. O ganlyniad, rydym am weithio gyda chi i fonitro a sicrhau arferion cyflogaeth teg a, chan weithredu'n rhesymol, rydym yn cadw'r hawl i wneud cais am newidiadau i unrhyw un o'r arferion hynny yr ydym yn ystyried eu bod yn annheg.

## 14 Yr amgylchedd

14.1 Byddwch yn sicrhau y cydymffurfir â'r holl Reolau a Rheoliadau amgylcheddol perthnasol wrth ddarparu'r Gwasanaethau.

14.2 Os bydd unrhyw nwyddau neu ddeunyddiau a ddefnyddiwch wrth ddarparu'r Gwasanaethau yn cynnwys unrhyw gynhyrchion sy'n deillio o ffynonellau naturiol, rhaid ichi wneud ymdrechion rhesymol i sicrhau bod yr adnoddau naturiol a ddefnyddir yn dod o ffynonellau cynaliadwy, a rhaid ichi gydymffurfio â Rheolau a Rheoliadau'r UE a Rheolau a Rheoliadau rhyngwladol cymwys eraill.

14.3 Pan fo modd, dylai'r nwyddau a'r deunyddiau yr ydych yn eu defnyddio wrth ddarparu'r Gwasanaethau ymgorffori deunyddiau y gellir eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu llosgi i adfer ynni. Dylech wneud pob ymdrech i leihau faint o ddeunyddiau a ddefnyddir a sicrhau bod yr holl brosesau a ddefnyddir wrth ddarparu'r Gwasanaethau yn cael cyn lleied o effaith ar yr amgylchedd â phosibl.

## 15 Deunyddiau, offer a chyfarpar ar gyfer y Gwasanaethau

15.1 Oni ddarperir fel arall yn y Contract byddwch, ar eich traul eich hun, yn cyflenwi'r holl ddeunyddiau, offer a chyfarpar sydd eu hangen arnoch i ddarparu'r Gwasanaethau, ac yn eu cynnal mewn cyflwr diogel a defnyddiol.

15.2 Os byddwn yn ei gwneud yn ofynnol, rhaid ichi gael ein caniatâd cyn danfon i'r Safle unrhyw ddeunyddiau, offer a chyfarpar y bydd eu hangen arnoch i ddarparu'r Gwasanaethau. Byddwch yn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddwn ichi am sut i ddanfon deunyddiau, offer a chyfarpar ac ar ba adegau y gellir eu danfon ond, oni bai ein bod yn dweud fel arall, byddwch yn eu danfon rhwng 9.00 a 17.00 o'r gloch.

15.3 Rhaid ichi ddweud wrthym os oes arnoch angen mynd i'n Safle i ddanfon y deunyddiau, offer a chyfarpar mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau. Os byddwn yn caniatáu ichi fynd i'n Safle, byddwch yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwn ichi yn ymwneud â'r Safle, gan gynnwys cyfarwyddiadau yn ymwneud â diogelwch, mynediad, ac iechyd a diogelwch.

15.4 Os ydych yn mynd i'r Safle i ddanfon y deunyddiau, offer a chyfarpar ac yn achosi unrhyw ddifrod neu'n anafu rhywun, byddwch yn talu inni y swm o arian y mae'n rhaid inni ei dalu i drwsio neu atgyweirio'r difrod (a allai gynnwys prynu eitem newydd yn lle'r un sydd wedi'i difrodi) neu i wneud iawn am yr anaf. Byddwch hefyd yn talu inni unrhyw gostau a threuliau y gallwn eu hysgwyddo yn gysylltiedig â gorfod ymdrin â'r digwyddiad.

15.5 Byddwch yn gyfrifol am ddiogelwch yr holl ddeunyddiau, offer a chyfarpar yr ydych yn eu defnyddio wrth ddarparu'r Gwasanaethau. Ni fyddwn yn atebol os bydd unrhyw eiddo sy'n perthyn i chi neu eich Personél yn cael ei ddwyn, ei golli neu ei ddifrodi oni bai y gallwch ddangos ein bod ni wedi achosi neu gyfrannu at y golled neu'r difrod.

15.6 Byddwch yn symud o'r Safle unrhyw ddeunyddiau, offer neu gyfarpar sydd yn ein barn ni yn beryglus ac os gofynnwn, byddwch yn cael rhai eraill, addas yn eu lle ar eich traul eich hun.

15.7 Byddwch yn gwneud yn siŵr bod rhybuddion amlwg ac addas ar bob cynhwysydd sydd â deunyddiau peryglus ynddo (ac ar unrhyw ddogfennau

sy'n ymwneud â deunydd peryglus) a'u bod yn cael eu trin gan bersonél wedi'u hyfforddi'n briodol sy'n cydymffurfio â'r holl Reolau a Rheoliadau.

15.8 Rhaid ichi gadw'r Safle yn dwt a thaclus wrth ddarparu'r Gwasanaethau ac yn enwedig pan fyddant wedi eu cwblhau. Byddwch yn cael gwared ag unrhyw offer, cyfarpar, deunyddiau nas defnyddiwyd, deunydd pecynnu a gwastraff yn unol â'n cais ni, ar eich traul eich hun.

## 16 Deunyddiau, offer a dogfennau a ddarperir ichi

16.1 Os byddwn yn darparu deunyddiau, offer neu ddogfennau ("Ein Deunyddiau") i chi yn rhad ac am ddim er mwyn ichi allu darparu'r Gwasanaethau, ni fydd yn berchen ar Ein Deunyddiau ac ni fyddant yn dod yn eiddo i chi. Ni fydd gennych hawl o dan unrhyw amgylchiadau i'w cadw yn eich meddiant fel gwarant (hawlrwym) nac i gadw unrhyw fudd arall yn Ein Deunyddiau. Byddwch yn eu storio ar wahân os yw hynny'n ymarferol, a byddwch yn sicrhau, beth bynnag, y nodir yn eglur arnynt mai ein heiddo ni ydynt.

16.2 Tybir bod Ein Deunyddiau mewn cyflwr da pan roddir hwy i chi oni bai eich bod yn ein hysbysu fel arall o fewn Pum Niwrnod Gwaith. Byddwch yn eu cadw mewn cyflwr da (ac eithrio traul dderbyniol) a byddwch yn eu defnyddio i ddarparu'r Gwasanaethau yn unig ac nid i ddim pwrpas arall.

16.3 Os byddwch chi neu eich Personél yn difrodi neu'n colli unrhyw rai o'n Deunyddiau a ddarparwn, byddwch yn talu am y gost o'u hatgyweirio neu gael rhai eraill yn eu lle.

16.4 Os byddwn yn gofyn ichi ddychwelyd unrhyw rai o'n Deunyddiau, byddwch yn gwneud hyn ar unwaith. Byddwch yn atebol am unrhyw gost sy'n gysylltiedig â'u dychwelyd, hyd at yr adeg y byddwn ni'n eu derbyn.

16.5 Os bydd unrhyw rai o'n Deunyddiau yn eich meddiant chi ar ddiwedd y Contract, byddwch yn eu dychwelyd inni ar unwaith oni bai ein bod yn dweud wrthych am gael gwared arnynt mewn rhyw ffordd arall ac os felly byddwch yn cydymffurfio â'n cyfarwyddiadau.

## 17 Iechyd a diogelwch

17.1 Byddwch yn darparu'r Gwasanaethau mewn modd diogel ac mewn ffordd na fydd yn achosi unrhyw risg i iechyd neu ddiogelwch unrhyw un o'n cyflogeion ac unrhyw bersonau eraill.

17.2 Byddwch yn cydymffurfio â'r holl Reolau a Rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol a'n polisïau iechyd a diogelwch (mae croeso ichi wneud cais am gopi). Byddwch yn sicrhau bod eich Personél yn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau ar iechyd a diogelwch y gallem eu cyflwyno iddynt.

17.3 Rhaid ichi sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a deunyddiau a ddefnyddir wrth ddarparu'r Gwasanaethau yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r holl Reolau a Rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol, ac nad ydynt yn achosi unrhyw risg i iechyd neu ddiogelwch unrhyw un o'n cyflogeion nac unrhyw berson arall, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y Safle ac yn ymweld ag ef.

17.4 Byddwch yn tynnu ein sylw ar unwaith at fanylion unrhyw berygl o ran iechyd a diogelwch neu unrhyw ddigwyddiad sy'n codi wrth ichi gyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract yn y Safle, pan fo'r digwyddiad hwnnw yn achosi unrhyw anaf personol neu ddifrod i eiddo a allai arwain at anaf personol.

17.5 Byddwch yn sicrhau nad ydych yn achosi i ni fod yn torri unrhyw Reolau a Rheoliadau iechyd a diogelwch cymwys.

17.6 Os bydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd yn ein herbyn ni neu os ydym yn mynd i unrhyw golled oherwydd nad ydych wedi darparu'r Gwasanaethau mewn modd diogel, neu oherwydd eich bod wedi torri neu wedi achosi i ni dorri unrhyw Reolau a Rheoliadau iechyd a diogelwch cymwys, byddwch yn talu inni faint bynnag o arian y mae'n rhaid inni ei dalu mewn cysylltiad â'r camau hynny a/neu swm ein colled. Byddwch hefyd yn talu inni unrhyw gostau a threuliau yr aethom iddynt yn gysylltiedig â'r camau neu'r golled.

17.7 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 18 Rheoli newid

18.1 Gallwn ar unrhyw adeg ofyn ichi addasu unrhyw ofyniad mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y Gwasanaethau, gan gynnwys lleihau'r Gwasanaethau neu ddarparu gwasanaethau ychwanegol. Gwneir y cais yn ysgrifenedig fel arfer ("**yr Hysbysiad Newid**") ac eithrio mewn perthynas â mân newidiadau neu rai nad ydynt yn rhai sylweddol, pan allwn wneud y cais ar lafar yn unol ag Amod 18.8. Bydd yr Hysbysiad Newid yn rhoi'r manylion llawn ichi am unrhyw newid y gofynnir amdano ac unrhyw wybodaeth ychwanegol y gall yn rhesymol fod ei hangen arnoch er mwyn eich galluogi i ddarparu amcangyfrif ysgrifenedig o effaith y newid ("**yr Amcangyfrif**"). Byddwch yn seilio'r Amcangyfrif ar y prisiau sydd wedi'u cynnwys yn eich Cynnig.

18.2 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a beth bynnag o fewn 10 Niwrnod Gwaith i gael yr Hysbysiad Newid, byddwch yn cyflwyno'r Amcangyfrif inni, a bydd yn cynnwys y manylion a ganlyn:

18.2.1 unrhyw ostyngiad neu gynnydd ym Mhris y Contract mewn perthynas â'r newid; ac

18.2.2 unrhyw effaith ar ddarpariaeth y Gwasanaethau.

18.3 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Amcangyfrif ddod i law, bydd y partïon yn trafod yn ddidwyll ac yn cytuno ar y materion a nodir yn yr Amcangyfrif, gan gynnwys unrhyw newid i Bris y Contract. Mewn trafodaethau o'r fath, mae'n bosibl y byddwn yn addasu'r Hysbysiad Newid, a byddwch yn ein hysbysu o unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Amcangyfrif.

18.4 Os na chytunir ar gynnwys yr Amcangyfrif o fewn 10 Niwrnod Gwaith neu unrhyw gyfnod rhesymol eraill y bydd y ddau barti yn cytuno iddo, bydd gennym y dewis i dynnu'r Hysbysiad Newid yn ôl neu gyfeirio'r mater i'w benderfynu yn unol â'r weithdrefn datrys anghydfod yn Amod 19.

18.5 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cytuno ar gynnwys yr Amcangyfrif neu ar ôl penderfynu arno fel arall yn unol â'r weithdrefn datrys anghydfod, byddwn naill ai:

18.5.1 yn cadarnhau yn ysgrifenedig ein bod yn derbyn yr Amcangyfrif; neu

18.5.2 yn tynnu'r Hysbysiad Newid yn ôl.

18.6 Bydd y newid, gan gynnwys unrhyw addasiad i'r Gwasanaethau a/neu Bris y Contract, yn cael ei roi ar waith cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

18.7 Os nad ydym yn cadarnhau'r Amcangyfrif yn ysgrifenedig o fewn 20 Diwrnod Gwaith i gytuno neu benderfynu ar gynnwys yr Amcangyfrif, ystyrir bod yr Hysbysiad Newid wedi cael ei dynnu'n ôl.

18.8 Er mwyn osgoi amheuaeth, byddwch yn cydymffurfio ag unrhyw fân newidiadau i'r Gwasanaethau neu newidiadau nad ydynt yn rhai sylweddol y gallem ofyn amdanynt. Bydd newidiadau o'r fath yn dod i rym ar unwaith yn unol â thelerau unrhyw hysbysiad llafar neu ysgrifenedig a roddwn ichi, ac ni fyddant yn amodol ar y gweithdrefnau Rheoli Newid a nodir yn yr Amod 18 hwn.

## 19 Datrys Anghydfod

19.1 Os bydd anghydfod yn deillio o'r Contract, o'i gyflawni, o'i ddilysrwydd neu o'r graddau y mae modd ei orfodi, neu mewn cysylltiad â hynny, (ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw hawl a all fod gennym i derfynu'r Contract hwn yn unol ag Amodau 30, 31 neu 33.2) ("**Anghydfod**"), bydd y partïon yn cydymffurfio â'r drefn a ganlyn:

19.1.1 bydd y naill barti yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r llall am yr Anghydfod, yn nodi ei natur a'r manylion llawn ("**Hysbysiad**

**Anghydfod**"), ynghyd â dogfennau ategol perthnasol. Ar ôl cyflwyno'r Hysbysiad Anghydfod, bydd y Rheolwyr Gwasanaeth perthnasol, neu os nad oes rhai wedi cael eu penodi, unigolion sy'n cyflawni rolau tebyg, yn ceisio datrys yr Anghydfod yn ddidwyll a chan weithredu'n rhesymol;

19.1.2 os na ellir datrys yr Anghydfod am unrhyw reswm o fewn 10 Diwrnod Gwaith i gyflwyno'r Hysbysiad Anghydfod, bydd yr Anghydfod yn cael ei gyfeirio at Gyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd ac at unigolyn o statws tebyg yr ydych chi'n ei enwebu, a bydd y rhain yn ceisio'i ddatrys yn ddidwyll a chan weithredu'n rhesymol; a

19.1.3 os na ellir datrys yr Anghydfod am unrhyw reswm o fewn 10 Diwrnod Gwaith ychwanegol, bydd y partïon yn ceisio'i setlo trwy gyfryngu yn unol â Gweithdrefn Gyfryngu Enghreifftiol y Ganolfan ar gyfer Datrys Anghydfodau'n Effeithiol. Oni chytunir fel arall rhwng y partïon, bydd y cyfryngwr yn cael ei enwebu gan CEDR Solve. Er mwyn dechrau'r broses gyfryngu, rhaid i un parti gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig ("**hysbysiad ADR**") i barti arall yr Anghydfod, yn gofyn am gyfryngu. Dylid anfon copi o'r hysbysiad ADR at CEDR Solve. Bydd y broses gyfryngu yn dechrau heb fod yn hwyrach na 15 Diwrnod Gwaith ar ôl dyddiad yr hysbysiad ADR oni chytunir fel arall rhwng y partïon.

19.2 Ni fydd y ffaith bod y broses gyfryngu wedi dechrau yn atal y partïon rhag cychwyn neu barhau ag achos mewn perthynas â'r Anghydfod o dan Amod 41 (sy'n gymwys bob amser).

## 20 Aseinio ac is-gontractio

20.1 Oni bai ein bod yn cytuno yn ysgrifenedig, ni chaniateir ichi is-gontractio, trosglwyddo nac aseinio'r Contract nac unrhyw ran ohono.

20.2 Os byddwch yn is-gontractio unrhyw waith o dan y Contract, byddwch yn dal i fod yn gyfrifol i ni am gyflawni'r Contract. Gallwn gymryd camau yn eich erbyn os nad yw eich is-gontractwr yn gwneud yr hyn y mae'r is-gontractwr i fod i'w wneud.

20.3 Pan fyddwch yn llofnodi is-gontract gyda chyflenwr neu gontractwr at ddiben cyflawni'r Contract, byddwch yn sicrhau bod telerau yn cael eu cynnwys yn yr is-gontract sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi dalu i'r is-gontractwr unrhyw symiau nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn cyfnod penodol nad yw'n hwy na 30 diwrnod wedi i anfoneb ddilys ddod i law, fel y'i diffinnir gan

ofynion yr is-gontract. Byddwch hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw is-gontractwr yn cynnwys darpariaeth debyg mewn unrhyw gontract y mae'n ei lofnodi gyda chyflenwr neu gontractwr.

## 21 Indemniad

21.1 Byddwch yn ein hindemnio ac yn parhau i'n hindemnio yn erbyn unrhyw a phob hawliad a phob rhwymedigaeth, gorchymyn, cost, achos, iawndal a thraul (gan gynnwys ffioedd a threuliau cyfreithiol a phroffesiynol eraill) a ddyfernir yn ein herbyn, neu yr ydym yn mynd iddynt, o ganlyniad i ddarparu'r Gwasanaethau neu mewn cysylltiad â hynny, boed yn deillio o gamwedd (gan gynnwys esgeulustod), twyll, diffygdalu neu dorri'r Contract hwn ("**Colledion**"). Ni fydd yr indemniad hwn yn gymwys i'r graddau y bydd y Colledion yn cael eu hachosi yn uniongyrchol gan ein hesgeulustod neu ein camymddwyn bwriadol ni neu yn deillio yn uniongyrchol o hynny.

21.2 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r indemniad yn Amod 21.1 yn cynnwys colledion yr ydym yn mynd iddynt oherwydd bod unrhyw berson arall yn hawlio yn ein herbyn bod derbyn y Gwasanaethau yn torri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol sydd gan y person hwnnw, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

21.3 Mae'r hawliau, y pwerau a'r rhwymedïau yn y Contract yn gronnus ac nid ydynt yn ein hatal rhag mynd ar drywydd unrhyw hawliau, pwerau a rhwymedïau eraill a ddarperir gan y gyfraith.

21.4 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 22 Cyfyngiad ar atebolrwydd

22.1 Yn ddarostyngedig i Amod 22.5, ni fydd y naill barti na'r llall yn atebol i'r parti arall (i'r graddau y caniateir hynny gan y gyfraith) mewn cysylltiad â'r Contract ar gyfer:

22.1.1 colli elw gwirioneddol neu elw a ragwelir;

22.1.2 colli refeniw;

22.1.3 colli contractau;

22.1.4 colli arbedion disgwyliedig;

22.1.5 colli ewyllys da;

22.1.6 colli cyfleoedd busnes;

22.1.7 colli enw da;

22.1.8 nac ychwaith am unrhyw golledion, difrod, cost neu dreuliau anuniongyrchol neu ganlyniadol;

ni waeth a ellid yn rhesymol ragweld colledion o'r fath neu a yw'r parti sy'n diffygdalu neu ei asiantau wedi cael eu hysbysu o'r posibilrwydd y gallai'r parti arall fynd i golledion o'r fath. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae is-baragraffau (22.1.1) hyd at (22.1.7) yn gymwys pa un a yw colledion o'r fath yn rhai uniongyrchol, anuniongyrchol, canlyniadol neu fel arall.

22.2 Yn ddarostyngedig i Amod 22.5, ni fydd eich atebolrwydd i ni mewn perthynas â phob hawliad, colled neu ddifrod arall, boed yn deillio o gamwedd (gan gynnwys esgeulustod), torri'r contract neu fel arall o dan y Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef, mewn unrhyw achos yn fwy na £5 miliwn yn gyfanredol.

22.3 Yn ddarostyngedig i Amod 22.5, bydd ein hatebolrwydd i chi mewn perthynas â phob hawliad, colled neu ddifrod arall, boed yn deillio o gamwedd (gan gynnwys esgeulustod), torri'r contract neu fel arall o dan y Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef, yn cael ei gyfyngu i 110% o Bris y Contract a dalwyd neu sy'n daladwy yn ystod y cyfnod o 12 mis cyn i'r rheswm dros weithredu godi.

22.4 Bydd pob parti bob amser yn cymryd pob cam rhesymol i leihau a lliniaru unrhyw golled neu ddifrod y mae gan y parti perthnasol yr hawl i ddwyn achos yn erbyn y parti arall amdano yn unol â'r Contract hwn.

22.5 Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall yn y Contract, nid yw'r naill barti na'r llall yn cyfyngu nac yn eithrio ei atebolrwydd am:

22.5.1 twyll neu gamliwio twyllodrus;

22.5.2 marwolaeth neu anaf personol a achosir gan ei esgeulustod;

22.5.3 torri unrhyw rwymedigaeth o ran teitl a awgrymir gan statud; neu

22.5.4 unrhyw weithred neu anwaith arall, na chaniateir cyfyngu ar atebolrwydd amdano o dan unrhyw ddeddf gymwys.

22.6 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 23 Yswiriant

23.1 Mae'n rhaid ichi eich yswirio eich hun (a gwneud yn siŵr bod unrhyw is-gontractwr yn ei yswirio'i hun) gyda chwmni yswiriant dibynadwy hyd at o leiaf y lefelau yswiriant isaf a nodir yn Amod 23.2 mewn perthynas â'r holl risgiau sy'n deillio o gyflawni'r Contract, fel y nodir yn y Fanyleb. Rhaid ichi

gynnal (a sicrhau bod unrhyw is-gontractwr yn cynnal) y polisïau yswiriant perthnasol trwy gydol cyfnod y Contract. Os gofynnwn am hynny, byddwch yn dangos inni ar unwaith y polisïau yswiriant neu nodyn gan y brocer yn dilysu'r yswiriant, yn dangos bod y sicrwydd priodol wedi'i sefydlu, a thystiolaeth bod y premiymau mwyaf diweddar wedi cael eu talu.

23.2 Lefelau yswiriant isaf:

23.2.1 yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyda therfyn indemniad o ddim llai na £5 miliwn mewn perthynas ag unrhyw un hawliad neu gyfres o hawliadau; a

23.2.2 yswiriant atebolrwydd cyflogwyr gyda therfyn indemniad o ddim llai na £5 miliwn mewn perthynas ag unrhyw un hawliad neu gyfres o hawliadau; a

23.2.3 yswiriant indemniad proffesiynol gyda therfyn indemniad o ddim llai nag £1 filiwn mewn perthynas ag unrhyw un hawliad neu gyfres o hawliadau gan sicrhau bod yr holl ymgynghorwyr proffesiynol neu is-gontractwyr sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaethau yn sefydlu a chynnal yswiriant priodol.

23.3 Os na fyddwch, am ba reswm bynnag, yn sefydlu a chynnal y polisïau yswiriant a nodir yn yr Amod 23 hwn, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud trefniadau eraill i ddiogelu ein buddiannau a gallwn adennill costau trefniadau o'r fath gennych chi.

23.4 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 24 Rhyddid Gwybodaeth

24.1 At ddibenion y Contract hwn, bydd gan y termau "**Gwybodaeth**" a "**Cais am Wybodaeth**" yr ystyr a ragnodir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

24.2 Rydym yn gweithredu o dan God Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth ("**y Cod**"). Er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rydych yn cydnabod ein bod yn gweithredu o dan y Cod ac yn destun gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a byddwch yn ein cynorthwyo ac yn cydweithio gyda ni ar eich traul eich hun er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n gofynion datgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (ac fel y nodir yn yr Amod 24 hwn).

24.3 Byddwch yn:

24.3.1 trosglwyddo unrhyw Gais am Wybodaeth atom cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo ddod i law a beth bynnag o fewn 2 Ddiwrnod Gwaith i Gais am Wybodaeth ddod i law;

24.3.2 rhoi copi inni o'r holl Wybodaeth sydd yn eich meddiant neu eich pŵer ar y ffurf y mae arnom ni ei hangen o fewn 4 Diwrnod Gwaith (neu gyfnod arall y byddwn o bosibl yn ei nodi) inni ofyn am Wybodaeth o'r fath;

24.3.3 rhoi inni unrhyw resymau a thystiolaeth ategol y gallech ddymuno inni eu hystyried er mwyn ein galluogi i ystyried a yw unrhyw eithriadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gymwys; a

24.3.4 darparu'r holl gymorth angenrheidiol yr ydym yn gwneud cais rhesymol amdano er mwyn ein galluogi i ymateb i Gais am Wybodaeth o fewn yr amser ar gyfer cydymffurfio a nodir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

24.4 Ar ôl ymgynghori â chi ac ystyried eich barn, byddwn yn gyfrifol am benderfynu yn ôl ein disgresiwn llwyr a oes unrhyw Wybodaeth:

24.4.1 wedi ei heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; a

24.4.2 i gael ei datgelu mewn ymateb i Gais am Wybodaeth;

ac ni fyddwch mewn unrhyw achos yn ymateb yn uniongyrchol i Gais am Wybodaeth oni chewch eich awdurdodi'n benodol i wneud hynny gennym ni.

24.5 Rydych yn cydnabod y gall fod yn rhaid inni ddatgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

24.5.1 heb ymgynghori â chi; neu

24.5.2 ar ôl ymgynghori â chi ac ar ôl rhoi ystyriaeth i'ch barn;

ac ni fyddwn yn atebol beth bynnag am unrhyw golled, difrod neu niwed arall sy'n deillio o ddatgelu unrhyw Wybodaeth sy'n ymwneud â'r Contract hwn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

24.6 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

**25 Diogelu Data**

25.1 At ddibenion y Contract hwn, mae i'r termau "**Rheolydd Data**", "**Prosesydd Data**", "**Testun Data**", "**Data Personol**", "**Prosesu**" a "**Categorïau Arbennig o Ddata**" yr ystyr a ragnodir o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data a chaiff "**Prosesu**" ei ddehongli yn unol â hynny.

25.2 Bydd y ddau barti yn eu tro yn cydymffurfio â holl ofynion cymwys y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Mae'r Amod 25 hwn yn ychwanegol at rwymedigaethau parti o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data, ac nid yw'n ei ryddhau ohonynt, yn dileu'r rhwymedigaethau nac yn eu disodli.

25.3 Rydych yn gwarantu, yn mynegi ac yn ymrwymo inni:

25.3.1 eich bod wedi cydymffurfio ym mhob ffordd â'ch rhwymedigaethau fel Rheolydd Data neu Brosesydd Data (pa un bynnag sy'n gymwys o dan yr amgylchiadau) o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, ac y byddwch yn parhau i wneud hynny; a

25.3.2 bod gennych bob cydsyniad angenrheidiol gan Destunau perthnasol y Data i drosglwyddo eu Data Personol (gan gynnwys Categorïau Arbennig o Ddata) i ni lle bo angen er mwyn cyflawni'r Contract ac er mwyn inni allu Prosesu'r Data Personol yn unol â hynny.

25.4 Er gwaethaf y rhwymedigaeth gyffredinol yn Amod 25.2, pan fyddwch yn Prosesu Data Personol fel Prosesydd Data ar ein rhan, byddwch yn:

25.4.1 yn prosesu'r Data Personol yn unol â'n cyfarwyddiadau ni yn unig (gallem wneud hynny trwy gyfarwyddiadau penodol neu gyfarwyddiadau cyffredinol eu natur) fel y'u nodir yn y Contract neu fel yr ydym yn hysbysu fel arall, oni bai bod cyfraith unrhyw aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd sy'n gymwys i chi yn ei gwneud yn ofynnol i chi Brosesu'r Data Personol (**Cyfreithiau Cymwys**). Os ydych chi'n dibynnu ar y Cyfreithiau Cymwys fel y sail ar gyfer Prosesu Data Personol, rhaid i chi roi gwybod i ni yn brydlon am hyn cyn gwneud y gwaith Prosesu sy'n ofynnol gan y Cyfreithiau Cymwys oni bai bod y Cyfreithiau Cymwys yn eich atal rhag rhoi gwybod i ni;

25.4.2 prosesu'r Data Personol dim ond i'r graddau, ac yn y modd, sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract hwn neu fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac ni fyddwch yn is-gontractio unrhyw waith Prosesu heb ein caniatâd ysgrifenedig ni ymlaen llaw;

25.4.3 yn gweithredu mesurau technegol a threfniadol priodol, a gaiff eu hadolygu a'u cymeradwyo gennym yn ôl y gofyn, i ddiogelu'r Data Personol rhag cael eu Prosesu'n anghyfreithlon neu heb awdurdod, a rhag cael eu colli'n ddamweiniol, eu dinistrio, eu llygru, eu difrodi, eu newid neu eu datgelu. Rhaid i fesurau o'r fath fod yn briodol i'r niwed a allai ddeillio o unrhyw achos o Brosesu Data yn anghyfreithlon neu heb awdurdod, neu eu colli'n ddamweiniol, eu dinistrio, eu llygru, eu difrodi, eu newid neu eu datgelu, gan roi sylw i'r sefyllfa o ran datblygiadau technolegol a chost gweithredu unrhyw fesurau (caiff mesurau o'r fath gynnwys, lle y bo'n briodol, rhoi ffugenw ac amgryptio Data Personol; sicrhau cyfrinachedd, cywirdeb, argaeledd a gwydnwch eich systemau a'ch gwasanaethau; sicrhau hygyrchedd ac argaeledd Data Personol yn brydlon ar ôl digwyddiad; ac asesu a gwerthuso'n rheolaidd effeithiolrwydd y mesurau technegol a threfniadol a fabwysiadwyd gennych chi);

25.4.4 yn rhoi gwybod i ni am unrhyw achos o dorri'r mesurau y cyfeirir atynt yn Amod 25.4.3;

25.4.5 yn rhoi gwybod i ni ar unwaith os ydych o'r farn y gallai unrhyw un o'n cyfarwyddiadau dorri'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

25.4.6 yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod eich staff y gallai fod ganddynt fynediad at y Data Personol yn ddibynadwy a sicrhau eu bod;

25.4.6.1 yn ymwybodol o'ch dyletswyddau o dan yr Amod 25 hwn ac yn cydymffurfio â hwy a dim ond yn Prosesu Data Personol yn unol â'r Contract;

25.4.6.2 yn cael eu hysbysu o natur gyfrinachol y Data Personol ac na fyddant yn cyhoeddi, datgelu nac yn datguddio unrhyw Ddata Personol i unrhyw drydydd parti oni bai ein bod yn gofyn iddynt wneud hynny yn ysgrifenedig neu fel arall fel a ganiateir gan y Contract;

25.4.6.3 yn ddarostyngedig i ymgymeriadau cyfrinachedd parhaus gyda chi a'i fod yn ofynnol iddynt gadw'r Data Personol yn gyfrinachol; a

25.4.6.4 wedi cael hyfforddiant digonol wrth ddefnyddio, gofalu a diogelu Data Personol; a

25.4.7 yn sicrhau bod gennych yr holl gydsyniadau a hysbysiadau priodol angenrheidiol ar waith i allu trosglwyddo'r Data Personol yn gyfreithlon rhyngoch chi a ni am hyd a dibenion y Contract;

25.4.8 yn peidio â datgelu Data Personol i unrhyw drydydd parti mewn unrhyw amgylchiadau heblaw gyda'n caniatâd ysgrifenedig ni neu i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol a osodir arnom;

25.4.9 yn peidio â Phrosesu'r Data Personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd heb ein caniatâd ysgrifenedig ni ymlaen llaw a hynny'n ddarostyngedig i unrhyw amodau yr ydym yn eu hystyried yn angenrheidiol, sy'n cynnwys (ymhlith eraill os byddwn yn gofyn am hynny) y canlynol:

25.4.9.1 bod y partïon wedi darparu mesurau diogelu priodol mewn perthynas â'r trosglwyddiad;

25.4.9.2 bod gan y Testun Data hawliau cyfreithiol gorfodadwy a rhwymedïau cyfreithiol effeithiol;

25.4.9.3 eich bod yn cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data trwy ddarparu lefel ddigonol o ddiogelwch i unrhyw Ddata Personol a drosglwyddir; a

25.4.9.4 eich bod yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau rhesymol a roddir i chi ymlaen llaw gennym wrth Brosesu'r Data Personol; a

25.4.10 yn ein cynorthwyo ni, ar eich traul eich hun, wrth ymateb i unrhyw gais gan Destun Data ac yn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data mewn perthynas â diogelwch, hysbysiadau torri, asesiadau effaith ac ymgynghoriadau gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod rheoleiddio arall;

25.4.11 yn ein hysbysu ni'n ddi-oed wrth ddod yn ymwybodol o achos o dorri Data Personol; a

25.4.12 yn dileu neu ddychwelyd Data Personol ac unrhyw gopïau atom ar ddiwedd oes y Contract os byddwn yn gofyn ichi wneud hynny, oni bai bod y Ddeddfwriaeth Diogelu Data neu Gyfraith Gymwys yn gofyn ichi gadw'r Data Personol.

25.5 Byddwch yn rhoi pob cymorth rhesymol inni wrth baratoi Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data. Gall y cyfryw gymorth, yn ôl ein disgresiwn, gynnwys:

25.5.1 disgrifiad systematig o'r gweithrediadau Prosesu a ragwelir a phwrpas y Prosesu;

25.5.2 asesiad o'r angen am y Gwasanaethau a chymesuredd mewn perthynas â hwy;

25.5.3 asesiad o'r risgiau i hawliau a rhydidau'r Testunau Data; a

25.5.4 y mesurau a ragwelir i fynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys mesurau a dulliau diogelu i sicrhau bod Data Personol yn cael eu diogelu.

25.6 Byddwch yn ein hysbysu ar unwaith os ydych yn:

25.6.1 derbyn cais am fynediad at ddata gan y testun (neu gais honedig am fynediad at ddata gan y testun);

25.6.2 derbyn cais i unioni, blocio neu ddileu unrhyw Ddata Personol;

25.6.3 derbyn unrhyw gais, cwyn neu ddogfen gyfathrebu arall sy'n ymwneud â'ch rhwymedigaethau chi neu ein rhwymedigaethau ni o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

25.6.4 derbyn unrhyw ddogfen gyfathrebu gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod rheoleiddio arall mewn cysylltiad â Data Personol a Brosesir o dan y Contract;

25.6.5 derbyn cais gan drydydd parti ar gyfer datgelu Data Personol pan fo'n ofynnol cydymffurfio â chais o'r fath neu pan honnir ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith; neu

25.6.6 dod yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at, neu a allai arwain at, fynediad heb awdurdod at Ddata Personol a gedwir gennych chi o dan y Contract a / neu achos gwirioneddol neu bosib o golli a / neu ddinistrio Data Personol sy'n torri'r Contract ("**Digwyddiad Colli Data**").

Mae'r rhwymedigaethau i hysbysu yn yr Amod 25.6 hwn yn cynnwys darparu gwybodaeth bellach i ni mewn cyfnodau, wrth i'r manylion ddod i law.

25.7 O ystyried natur y Prosesu, byddwch yn rhoi cymorth llawn i ni mewn perthynas â'ch rhwymedigaethau chi neu ein rhwymedigaethau ni o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac unrhyw gŵyn, dogfen gyfathrebu neu gais

y cyfeirir ati yn Amodau 25.6.1 i 25.6.5 yn gynwysedig (ac, i'r graddau y bo'n bosibl, o fewn ein hamserlenni) gan gynnwys rhoi'r canlynol inni yn brydlon:

25.7.1 manylion llawn y gŵyn, y ddogfen gyfathrebu neu'r cais;

25.7.2 y fath gymorth a geisir yn rhesymol gennym ni i'n galluogi i gydymffurfio â Chais am Fynediad at Ddata gan y Testun o fewn yr amserlenni perthnasol a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

25.7.3 ar ein cais ni, unrhyw Ddata Personol sydd gennych mewn perthynas â Thestun Data;

25.7.4 cymorth fel y gofynnwyd amdano gennym ni yn dilyn unrhyw Ddigwyddiad Colli Data;

25.7.5 cymorth fel y gofynnwyd amdano gennym ni mewn perthynas ag unrhyw gais gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu awdurdod rheoleiddio arall, neu unrhyw ymgynghoriad rhyngom ni a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu awdurdod rheoleiddio arall.

25.8 Byddwch yn cadw cofnodion a gwybodaeth gyflawn a chywir i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Amod 25 hwn.

25.9 Byddwch yn caniatáu inni arolygu ac archwilio eich gweithgareddau Prosesu Data, o gael rhybudd rhesymol, a byddwch yn cydymffurfio â phob cais neu gyfarwyddyd rhesymol er mwyn ein galluogi i gadarnhau eich bod yn cydymffurfio'n llawn â'ch rhwymedigaethau o dan yr Amod 25 hwn a'r Contract.

25.10 Byddwch yn cymryd camau rhesymol i ddiogelu cyfanrwydd yr holl ddata yr ydych yn eu prosesu ac i atal y data hynny rhag cael eu llygru na'u colli mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys drwy wneud copïau wrth gefn ar gyfryngau y gellir ail-lwytho'r data oddi arnynt.

25.11 Nid ydym yn caniatáu i chi benodi prosesydd trydydd parti Data Personol o dan y Contract heb ein caniatâd ysgrifenedig. Os ydych yn rhoi caniatâd o'r fath, rydych chi'n cadarnhau'r canlynol:

25.11.1 eich bod wedi rhoi gwybodaeth lawn i ni yn ysgrifenedig am y gwaith Prosesu y bwriedir ei wneud gan y prosesydd trydydd parti;

25.11.2 eich bod wedi llunio cytundeb ysgrifenedig neu (yn ôl y digwydd) ar fin llunio cytundeb ysgrifenedig â'r prosesydd

trydydd parti sy'n cynnwys telerau sy'n sylweddol debyg i'r rhai a nodir yn yr Amod 25 hwn ac sy'n rhoi'r un lefel o ddiogelwch a sicrwydd; a

25.11.3 eich bod wedi rhoi'r cyfryw wybodaeth i ni am y prosesydd trydydd parti ag y gallwn yn rhesymol ofyn amdani.

Byddwch yn parhau'n atebol yn llawn o dan y Contract hwn a'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data ar gyfer holl weithrediadau a hepgoriadau unrhyw brosesydd trydydd parti a benodwyd gennych chi o dan yr Amod 25.11 hwn.

25.12 Rhaid i chi ddynodi swyddog diogelu data yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

25.13 Gallwn, ar unrhyw adeg ond gyda rhybudd o ddim llai na 30 Diwrnod Gwaith, adolygu'r Amod 25 hwn drwy ei ddisodli gydag unrhyw gymalau safonol neu delerau tebyg o'r rheolydd i'r prosesydd (neu i'r gwrthwyneb) sy'n rhan o gynllun ardystio perthnasol (a fydd yn gymwys pan ymgorfforir hwy trwy eu hatodi i'r Amodau hyn).

25.14 Mae pob un ohonoch chi a ni yn cytuno i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'n bosibl y byddwn, gyda rhybudd o ddim llai na 30 Diwrnod Gwaith, yn diwygio'r Contract er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

25.15 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 26 Cyfrinachedd

26.1 Oni bai ein bod yn cytuno, rhaid i'r holl wybodaeth yr ydych yn ei chael gennym ni neu sy'n dod yn hysbys ichi mewn cysylltiad â'r Contract hwn gael ei chadw'n gyfrinachol ac ni chaniateir ei datgelu ac eithrio fel sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Contract. Nid yw hyn yn gymwys i wybodaeth sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd. Byddwch yn cymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw wybodaeth gyfrinachol rhag cael ei cholli, gan gynnwys peidio â chymryd mwy o gopïau o wybodaeth gyfrinachol nag sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Contract, ond heb fod wedi'i gyfyngu i hynny. Mae'n rhaid ichi roi gwybod inni ar unwaith os byddwch yn colli unrhyw eitem o'n gwybodaeth gyfrinachol ni.

26.2 Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a byddwch yn ein cynorthwyo ac yn cydweithio gyda ni ar eich traul eich hun er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'r gofynion hyn o ran datgelu gwybodaeth. Mae rhagor o fanylion am y rhwymedigaethau hyn yn cael eu nodi yn Amod 24. Rydych yn cydnabod y gall fod yn ofynnol inni

ddatgelu gwybodaeth a gedwir gennym mewn perthynas â'ch tendr, y Contract neu unrhyw wybodaeth arall a gofnodir i unrhyw un sy'n gwneud cais dilys o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Dim ond o ganlyniad i eithriadau yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y caniateir cadw yn ôl unrhyw wybodaeth yr ydym ni yn ei dal.

26.3 Cewch ddynodi bod gwybodaeth a roddir inni yn "gyfrinachol" neu'n "fasnachol sensitif", ond rydych yn cydnabod y gall fod yn rhaid inni ddatgelu gwybodaeth o'r fath pa un bynnag yn unol ag Amodau 26.2 a 24. Mae gennym rwymedigaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gynnal cynllun cyhoeddi sy'n nodi'r wybodaeth a gyhoeddir fel mater o drefn. Caiff manylion contractau a ddyfernir, sy'n werth dros £25,000 heb gynnwys TAW, eu cofnodi yn ein cynllun cyhoeddi a byddant yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn.

26.4 Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am eirdaon gan eich Banc, gan eich cleientiaid presennol neu rai'r gorffennol, neu ganolwyr eraill a roddwch inni.

26.5 Gallem ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Contract (gan gynnwys gwybodaeth am y pris) i awdurdodau eraill yn y sector cyhoeddus. Mae'n bosibl y byddwn am wneud hyn at y diben o gynnal trafodaethau ar y cyd er mwyn sicrhau, er enghraifft, bod y gwerth gorau am arian yn cael ei sicrhau, ac ni fydd datgeliad o'r fath yn torri'r Contract hwn.

26.6 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 27 Cyhoeddusrwydd

27.1 Ni fyddwch yn sôn am ein henw mewn cysylltiad â'r Contract nac yn datgelu bodolaeth y Contract mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu unrhyw gyhoeddiad arall oni bai ein bod wedi cytuno'n flaenorol i hyn, a bod ein Pennaeth Caffael wedi cymeradwyo'r hyn yr ydych am ei wneud, yn ysgrifenedig.

27.2 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 28 Archwiliadau a chofnodion

28.1 Byddwch chi, a'ch Personél pan fo'n berthnasol, yn cadw cofnodion cyflawn a chywir mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract, gan gynnwys yr holl daliadau a wnaed gennym i chi mewn perthynas â'r Gwasanaethau, am isafswm o 6 blynedd ar ôl dyddiad y taliad olaf a wnaed gennym i chi o dan y Contract. Os gofynnwn am hynny, gan roi rhybudd rhesymol, byddwch yn caniatáu i ni, i'n harchwilwyr neu i unrhyw gorff rheoleiddio weld eich cofnodion, a rhai eich Personél pan fo'n berthnasol, at unrhyw ddiben sy'n

ymwneud â chyflawni'r Contract, ac yn caniatáu i ni neu ein harchwilwyr gymryd copïau o'r cofnodion hynny yn ôl y gofyn.

28.2 Byddwn yn gwneud ymdrechion rhesymol i sicrhau nad yw'r gwaith o gynnal pob archwiliad yn tarfu arnoch yn afresymol nac yn peri oedi wrth ddarparu'r Gwasanaethau.

28.3 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 29 Hawliau Eiddo Deallusol

29.1 Oni bai bod cytundeb ysgrifenedig i'r gwrthwyneb wedi'i wneud ymlaen llaw, byddwn yn berchen ar yr holl Hawliau Eiddo Deallusol mewn unrhyw eitemau yr ydych chi'n eu cynhyrchu (ar ba ffurf bynnag) ar ein cyfer ni mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau, a byddant yn eiddo i ni. Pan fo angen er mwyn cyflawni hyn byddwch, yn rhad ac am ddim, yn aseinio'r Hawliau Eiddo Deallusol hyn i ni, gyda gwarant teitl llawn ac yn rhydd rhag pob hawl trydydd parti. Os gofynnwn am hynny, byddwch yn llofnodi unrhyw ddogfen sy'n ofynnol gennym fel tystiolaeth o drosglwyddo Hawliau Eiddo Deallusol i ni o dan yr Amod 29 hwn.

29.2 Ni fyddwch yn torri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol sydd gan unrhyw drydydd parti.

29.3 Bydd yr holl Hawliau Eiddo Deallusol mewn unrhyw eitemau a oedd eisoes yn bodoli ac a ddarperir gennych i ni mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau yn parhau yn eiddo i chi (oni bai y nodir i'r gwrthwyneb yn y Contract neu ein bod yn cytuno i'r gwrthwyneb rhyngom). Byddwch, yn rhad ac am ddim, yn rhoi inni drwydded nad yw'n gyfyngol, heb freindal, i ddefnyddio'r holl Hawliau Eiddo Deallusol o'r fath i'n galluogi i gael a defnyddio'r Gwasanaethau.

29.4 Os bydd unrhyw un yn gwneud hawliad yn erbyn y naill barti neu'r llall gan honni bod Hawliau Eiddo Deallusol wedi eu torri, rhaid i'r parti hwnnw hysbysu'r llall yn brydlon yn ysgrifenedig os gallai'r hawliad effeithio ar ein gallu i ddefnyddio'r Gwasanaethau.

29.5 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 30 Terfynu oherwydd ansolfedd

30.1 Cawn derfynu'r Contract ar unwaith trwy eich hysbysu yn ysgrifenedig:

30.1.1 os bydd rhywun yn cymryd camau yn eich erbyn a allai beri ichi gael eich gwneud yn fethdalwr neu ddod yn ansolfent neu os ydych yn gwneud, neu'n bwriadu gwneud, unrhyw drefniant

gyda phobl y mae arnoch arian iddynt y gellid ei ystyried yn "drefniant gyda chredydwyr"; neu

30.1.2 os ydych yn gwmni, os ydych yn ansolfent neu os cymerir unrhyw gamau i ddirwyn y cwmni i ben, neu os bydd unrhyw berson yn gwneud cynnig neu gais i benodi swyddog (fel gweinyddwr, diddymwr neu dderbynnydd), neu os penodir unrhyw swyddog o'r fath i reoli unrhyw rai o faterion neu asedau'r cwmni, neu os ydych yn gwneud unrhyw drefniant gyda phobl y mae arnoch arian iddynt y gellid ei ystyried yn "drefniant gyda chredydwyr".

30.2 Os byddwn yn cymryd unrhyw un o'r camau uchod ni fydd yn effeithio ar unrhyw hawliau eraill a all fod gennym yn eich erbyn mewn perthynas â'r Contract.

## 31 Terfynu

31.1 Heb effeithio ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill y gallwn fod â hawl iddynt o dan y Contract, gallwn derfynu'r Contract ar unwaith trwy roi rhybudd ichi yn ysgrifenedig:

31.1.1 os ydych wedi torri'r Contract mewn unrhyw ffordd sylweddol ac nad oes modd cywiro'r sefyllfa yn ein barn ni neu os nad ydych yn unioni'r sefyllfa ar eich traul eich hun ac mewn modd sy'n ein bodloni ni yn rhesymol o fewn 5 Niwrnod Gwaith i'n hysbysiad ysgrifenedig ni ddod i law yn rhoi gwybod ichi eich bod wedi torri'r Contract;

31.1.2 heb effeithio ar ein hawliau o dan Amod 31.1.6, os byddwch dro ar ôl tro yn torri unrhyw un o delerau'r Contract mewn modd sy'n cyfiawnhau'n rhesymol y farn bod eich ymddygiad yn anghyson â'r syniad eich bod yn bwriadu rhoi effaith i delerau'r Contract neu fod gennych y gallu i wneud hynny;

31.1.3 os bydd unrhyw weithred, anwaith neu ymddygiad gennych chi neu gan eich Personél, yn ein barn resymol ni, yn dwyn anfri arnom;

31.1.4 os byddwch chi (os ydych yn unigolyn neu'n un o'r Personél Allweddol) yn dod analluog yn feddyliol neu'n gorfforol i gwblhau'r Contract, naill ai oherwydd salwch neu ryw reswm arall;

31.1.5 os ydych yn torri Amod 3.1.2;

31.1.6 yn ddarostyngedig i Amod 8, os byddwch yn torri unrhyw un o'r Lefelau Gwasanaeth mewn modd sylweddol neu os ydych yn gyson yn torri'r Lefelau Gwasanaeth neu unrhyw un ohonynt; neu

31.1.5 os ydych yn torri Amod 33.1.

31.2 Yn ogystal, cawn derfynu'r Contract ar unrhyw adeg am unrhyw reswm trwy roi 60 diwrnod o rybudd ysgrifenedig ichi.

31.3 Beth bynnag, pan fo gennym hawl i derfynu'r Contract, ni fydd gennym hawl i ddewis terfynu'r Contract ond mewn perthynas â'r Gwasanaethau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan yr amgylchiadau a arweiniodd at ein hawl i derfynu. Os byddwn yn rhoi gwybod ichi yn yr hysbysiad terfynu a anfonwn atoch mai dim ond mewn perthynas â Gwasanaethau o'r fath yr ydym yn terfynu'r Contract, bydd y Contract yn cael ei derfynu mewn perthynas â'r Gwasanaethau hynny, ond fel arall bydd yn parhau mewn grym ac effaith lawn.

31.4 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 32 Canlyniadau terfynu'r Contract neu'r Contract yn dod i ben

32.1 Os bydd y Contract yn cael ei derfynu, nid effeithir ar unrhyw hawliau gweithredu neu rwymedïau a allai fod wedi codi ymlaen llaw neu a allai godi o ganlyniad i'r terfynu.

32.2 Os byddwn yn terfynu'r Contract (neu unrhyw ran o'r Contract) heblaw o dan Amod 30 neu 31.2 cawn, heb effeithio ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill y gallai fod gennym hawl iddynt, roi cyfarwyddiadau i rywun arall gyflawni'r Contract (neu ran berthnasol ohono) a:

32.2.1 byddwn yn cael defnyddio unrhyw ddeunyddiau yr ydych wedi eu gadael yn y Safle, yn ddi-dâl; a

32.2.2 os ydym yn rhoi cyfarwyddiadau i rywun arall gwblhau'r Gwasanaethau, ni fyddwn yn talu unrhyw arian i chi hyd nes y caiff y Gwasanaethau eu cwblhau. Byddwn yn tynnu'r hyn yr ydym wedi gorfod ei dalu i rywun arall am gwblhau'r Gwasanaethau o'r arian yr ydym i fod i'w dalu i chi. Os bydd yr arian yr ydym yn ei dalu i rywun arall am gwblhau'r Gwasanaethau yn fwy nag y byddem wedi ei dalu i chi o dan y Contract, ni fyddwn yn talu dim ychwanegol i chi ac os felly, byddwch yn talu'r gwahaniaeth i ni; a

32.2.3 byddwch yn cydweithredu ym mhob ffordd resymol ar eich traul eich hun er mwyn ein cynorthwyo a hwyluso unrhyw drefniadau eraill a wnawn i gyflawni'r Contract.

32.3 Os bydd y Contract (neu unrhyw ran o'r Contract) yn dod i ben neu'n cael ei derfynu am unrhyw reswm, byddwch yn:

32.3.1 darparu pob cymorth rhesymol a chydweithredu gyda ni yn ddi-dâl, gan gynnwys wrth ddatblygu cynllun ymadael, er mwyn hwyluso proses ddidrafferth ac effeithiol o drosglwyddo'r Gwasanaethau, unrhyw waith sydd ar y gweill a'r holl ddata perthnasol yn ôl i ni neu i Gyflenwr Newydd;

32.3.2 dychwelyd ein holl eiddo (gan gynnwys unrhyw offer, deunyddiau, dogfennau, data, gwybodaeth ac unrhyw beth arall y gallwn ei bennu), os byddwn yn gwneud cais am hynny;

32.3.3 aseinio neu newyddu unrhyw brydlesi ar gyfer offer neu galedwedd, heb bremiwm, ac unrhyw gytundebau cymorth cysylltiedig, i ni neu i unrhyw Gyflenwr Newydd, os gofynnwn am hynny;

32.4 Os byddwn yn terfynu'r Contract, byddwch yn rhoi adroddiad terfynu inni ar y gwaith a wnaed o dan y Contract os gofynnwn am hynny, a bydd yr adroddiad terfynu hwnnw yn cynnwys eich argymhellion inni yn seiliedig ar y gwaith hwnnw.

32.5 Bydd yr Amod hwn yn berthnasol yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 33 Rhoddion neu daliadau llwgr

33.1 Rhaid i chi beidio â gwneud dim sy'n rhoi neu'n cynnig unrhyw fath o cymhelliad neu wobr i unrhyw un o'n cyflogeion mewn perthynas â'r Contract neu unrhyw gontract arall. Gall fod yn drosedd i wneud unrhyw un o'r pethau hynny ac felly dylech wneud yn siŵr eich bod yn ymwybodol o Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 ac yn cydymffurfio â hi. Rhaid i chi beidio â chynnig unrhyw fath o letygarwch corfforaethol i unrhyw un o'n cyflogeion.

33.2 Gallem derfynu'r Contract ar unwaith trwy eich hysbysu yn ysgrifenedig os byddwch yn torri Amod 33.1.

33.3 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 34 Hawlildio

34.1 Dim ond os caiff ei roi'n ysgrifenedig y daw hawlildiad i rym mewn perthynas ag unrhyw hawl neu rwymedi o dan y Contract neu'r gyfraith, ac nid ystyrir bod hawliau wedi eu hildio mewn unrhyw achos dilynol o dorri amodau neu ddiffygdalu. Ni fydd y ffaith bod y naill neu'r llall ohonom yn peidio ag arfer unrhyw hawl neu rwymedi a ddarperir o dan y Contract neu gan y gyfraith neu yn oedi cyn gwneud hynny, yn gyfystyr ag ildio'r hawl neu rwymedi dan sylw nac unrhyw hawl neu rwymedi arall, ac ni fydd yn ein hatal rhag arfer eto yr hawl neu rwymedi dan sylw neu unrhyw hawl neu rwymedi arall nac yn cyfyngu ar ein gallu i wneud hynny. Ni fydd unrhyw achos unigol o arfer hawl neu rwymedi o'r fath, nac achos o'i harfer yn rhannol, yn atal unrhyw barti rhag arfer eto yr hawl neu rwymedi dan sylw neu unrhyw hawl neu rwymedi arall nac yn cyfyngu ar ein gallu i wneud hynny.

## 35 Rhwymedïau ac iawndal

35.1 Mae'r hawliau a'r rhwymedïau sydd gan bob un ohonom o dan y Contract yn gronnus ac nid ydynt yn nacáu unrhyw hawliau a rhwymedïau y darperir ar eu cyfer gan y gyfraith neu fel arall.

35.2 Heb ragfarnu unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill sydd gennych chi, neu sydd gennym ni, rydych yn cydnabod ac yn cytuno na fyddai iawndal ar ei ben ei hun yn rhwymedi digonol i unrhyw achos o dorri amodau’r Contract hwn gennych chi. Yn unol â hynny, mae gennym hawl i rwymedïau gwaharddeb, perfformiad penodol neu ryddhad ecwitïol arall am unrhyw achos bygythiedig neu wirioneddol o dorri telerau’r Contract hwn.

## 36 Hollti'r contract

36.1 Er gwaethaf y ffaith y gall darpariaeth gyfan yn y Contract hwn neu unrhyw ran o unrhyw ddarpariaeth ohono brofi'n anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, bydd darpariaethau eraill y Contract hwn a gweddill y ddarpariaeth dan sylw yn parhau mewn grym ag effaith lawn.

## 37 Hawliau Trydydd Parti

37.1 Ni fydd gan unrhyw berson nad yw'n barti yn y Contract hwn unrhyw hawliau i orfodi ei Amodau a Thelerau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 nac fel arall.

37.2 Nid yw hawliau'r partïon i derfynu, ddiddymu neu gytuno i unrhyw amrywiad, hawlildiad neu setliad o dan y Contract yn amodol ar gydsyniad unrhyw berson arall.

## 38 Hysbysiadau

38.1 Gellir anfon unrhyw hysbysiad sydd i'w hanfon gennych chi neu gennym ni mewn cysylltiad â'r Contract trwy lythyr dosbarth cyntaf rhagdaledig. Dylid anfon hysbysiadau i'r cyfeiriad ar gyfer pob parti a ddangosir yn y Gorchymyn Prynu. Gall y naill barti newid y cyfeiriad ar gyfer hysbysiadau trwy roi gwybod i'r llall yn ysgrifenedig beth yw'r cyfeiriad newydd, ond bydd y cyfeiriad blaenorol yn parhau i fod yn ddilys am 7 niwrnod ar ôl hysbysu am y newid.

38.2 Os caiff ei anfon i'r cyfeiriad cywir, ymdrinnir â hysbysiad fel pe bai wedi dod i law 48 awr ar ôl ei anfon.

## 39 Amrywio'r Contract

39.1 Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Contract hwn yn ddilys oni bai bod llofnodwyr awdurdodedig y ddau barti yn cadarnhau hynny'n ysgrifenedig.

## 40 Cytundeb cyfan

40.1 Y Contract hwn ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo yw'r cytundeb cyfan rhwng y partïon ac mae'n disodli ac yn diddymu pob contract, cytundeb, addewid, sicrwydd, gwarant, sylw a dealltwriaeth flaenorol rhyngom ni, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n ymwneud â'i bwnc.

40.2 Mae pob parti yn cydnabod nad yw'n dibynnu, wrth ymrwymo i'r Contract hwn a'r dogfennau y cyfeirir atynt ynddo, ar unrhyw ddatganiad, sylw, sicrwydd na gwarant (boed a gawsant eu gwneud yn ddiniwed neu'n esgeulus) gan unrhyw berson (boed yn barti i'r Contract hwn neu beidio) ac eithrio fel y nodir yn benodol yn y Contract hwn neu'r dogfennau hynny.

40.3 Mae pob parti yn cytuno na all hawlio am unrhyw achos o gamliwio'n ddiniwed nac yn esgeulus yn seiliedig ar unrhyw ddatganiad yn y Contract hwn.

## 41 Y gyfraith a'r awdurdodaeth sy'n llywodraethu

41.1 Gwneir y Contract o dan gyfraith Cymru a Lloegr fel y mae'n gymwys yng Nghymru, a bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr sy'n eistedd yng Nghymru yr awdurdod i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohono neu mewn cysylltiad ag ef (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn rhai cytundebol).